**ELL 01-02(mins)**

# Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Dyddiad:** 16 Ionawr 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

## Presenoldeb:

### Aelodau

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

### Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

### Swyddogion

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad (Eitem Tri) |
| Richard Keveren | Pennaeth, yr Is-adran Bolisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd (Eitem Dau) |
| Mike Moss | Yr Is-adran Bolisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd (Eitem Dau) |
| Paul Watts | Yr Is-adran Bolisi Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd (Eitem Dau) |
| Andrew Felton | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Yn Bresennol:**

***Yn cynrychioli Gyrfa Cymru:***

| | |
|---|---|
| Jeff Cocks | Cadeirydd Cymdeithas Gyrfa Cymru a Chadeirydd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol |
| Dr John Llewellyn | Is-gadeirydd Cymdeithas Gyrfa Cymru a Phrif Weithredwr Gyrfa Cymru’r Gogledd Orllewin |
| Mark Freeman | Aelod o Fwrdd Cymdeithas Gyrfa Cymru a Phrif Weithredwr Gyrfa Cymru Caerdydd a’r Fro |

***Yn cynrychioli Bwrdd yr Iaith Gymraeg:***

| | |
|---|---|
| Rhodri Williams | Cadeirydd |
| Meirion Prys Jones | Arweinydd Tîm: Tîm Cynllunio Iaith |
| Bethan Guilfoyle | Aelod Bwrdd |

**Ymddiheuriadau**

Mick Bates (ail hanner y cyfarfod)

Janice Gregory (ail hanner y cyfarfod)

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g•r yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig, aelod o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Pauline Jarman | Member of Court of Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd mewn coleg Addysg Bellach |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1. Cyhoeddodd y Cadeirydd fod adroddiad y Pwyllgor ar yr adolygiad polisi o addysg uwch wedi ei lansio'n llwyddiannus y diwrnod cynt yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru. Byddai'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Ionawr.
2. Atgoffawyd yr Aelodau y cynhelir y cyfarfod ar 30 Ionawr yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth. Byddai'r cyfarfod yn dechrau am 1.00pm.
3. Gofynnwyd i'r Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau heblaw am y rhai a grybwyllwyd yn y cofnodion blaenorol. Datganodd Pauline Jarman ei bod wedi peidio â bod yn aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd.

**Eitem Un: Adroddiad gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes**

***Papur: ELL 01-02(p.1)***

1.1 Yn ogystal â'r eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, ymdriniodd y Gweinidog â'r materion canlynol:

- ***Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol Llywodraeth y Cynulliad*** - bydd dadl yn y Cyfarfod Llawn yn Chwefror;

- ***Hyfforddiant Athrawon Cychwynnol i athrawon ieithoedd modern*** - mae grant hyfforddi o £4,000 ar gael;
- ***Ymddieithrio*** - mae cyllid sylweddol ar gael drwy GCAH i ddelio ag ymddygiad heriol - £11 miliwn ar gyfer 2002-03;
- ***Mesur Addysg*** - bydd yn ysgogi adolygiad o weithdrefnau gwahardd disgyblion a bydd yn ystyried absenoldeb, boed yn awdurdodedig neu beidio;
- ***Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant, Estyn*** - cyfarfu'r panel adolygu ar 11 Ionawr 2002 i gynnal adolygiad perfformiad o'r Prif Arolygydd a bydd yn cyflwyno ei adroddiad yn y dyfodol agos; a
- ***Cyfrifon Dysgu Unigol*** – bydd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn cynnwys gweithrediad Cyfrifon Dysgu Unigol yn ei hadolygiad o ELWa-y Cyngor Cenedlaethol. Bwriedir y bydd cynllun newydd i gymryd lle Cyfrifon Dysgu Unigol ar waith erbyn hydref 2002.

1.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- ***Blwyddyn Ewropeaidd Ieithoedd a'r Strategaeth Ieithoedd Genedlaethol*** – mynegodd yr Aelodau gefnogaeth i'r strategaeth a chroesawasant y cyfle i gael dadl yn y Cyfarfod Llawn. Dywedwyd bod dwyieithrwydd yn hwyluso amlieithrwydd ac awgrymodd y Gweinidog y dylid caniatáu mwy o amser ar gyfer ieithoedd tramor modern yn y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mewn ymateb, croesawodd y Gweinidog gefnogaeth y Pwyllgor a chytunodd i gymryd sylwadau'r Aelodau i ystyriaeth wrth ddatblygu'r strategaeth ieithoedd ac fel rhan o'r broses adolygu nesaf ar y cwricwlwm.
- ***Ymddieithrio*** – Holodd yr Aelodau ynghylch cyllid ar gyfer y sector cynradd; yr hawl i apelio yn erbyn gwaharddiadau parhaol; triwantiaeth; cyfraniad rhieni; a gwelliannau posibl mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon i hybu ymwybyddiaeth o'r broblem hon ymysg athrawon. Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog hefyd a ellid darparu ystadegau ar waharddiadau (wedi eu rhannu rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd), heriau technegol i orchmynion gwahardd, a gwariant GCAH fesul AALl ar fynd i'r afael ag ymddieithrio. Atebodd y Gweinidog y dylai'r swyddogion ddarganfod pa ddata a oedd ar gael ac wedyn eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog fod y gynhadledd yn Hydref wedi bod yn fuddiol a chytunodd i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor yn y gwanwyn, ar ôl llunio'r cynllun gweithredu.
- ***Prif Arolygydd, Estyn*** – Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar nifer o faterion gan gynnwys, y meini prawf ar gyfer y broses adolygu; pwy fydd yn benodi y panel adolygu; pwy a wnai y penderfyniad terfynol; ac a fydd yn benderfyniad gwleidyddol. Atebodd y Gweinidog mai hi a gymeradwyodd y panel ac yr oedd yn sicr eu bod yn annibynnol ac yn meddu ar ddigon o brofiad a gwybodaeth i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Yr oedd y meini prawf ar gyfer dethol yn cynnwys y rhai sydd yn nodweddiadol ar gyfer penodiad i'r Gwasanaeth Sifil Uwch. Dywedodd y Gweinidog mai mater i'r Cyfrin Gyngor yn y pen draw oedd y cwestiwn o ailbenodi, gan weithredu yn ôl cyngor yr Ysgrifennydd Gwladol, ac wedi ei oleuo gan farn y Gweinidog Cynulliad perthnasol. Ni fyddai'r penderfyniad yn un gwleidyddol ond byddai'n seiliedig ar adroddiad gwrthrychol y panel adolygu.
- ***Bagloriaeth Seisnig / Cymreig*** – Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog a wnâi sylwadau ar adroddiadau diweddar yn y wasg ynghylch y fagloriaeth arfaethedig yn Lloegr a goblygiadau hynny i Gymru. Dywedodd y Gweinidog na allai wneud sylw ar y Fagloriaeth Seisnig, gan na fu'n gysylltiedig â hi, ac y byddai'n adrodd i'r Pwyllgor ar y Fagloriaeth Gymreig gyda hyn. [Bwriedir cynnwys y Fagloriaeth Gymreig ar yr agenda i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar ôl toriad y Pasg.]

**Eitem Dau: Gyrfa Cymru – Cynllun Corfforaethol 2002-05**

***Papurau: ELL 01-02(p.2) & (p.3)***

2.1 Amlinellodd cynrychiolwyr Gyrfa Cymru ei nodau strategol ac egluro, gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, y prif heriau yn y dyfodol. Gellir gweld hynny yn Atodiad A. Yr oedd Gyrfa Cymru ar ganol ymgynghori ar ei Gynllun Corfforaethol 2002-05. Eglurodd y cyflwynwyr fod y Cynllun Corfforaethol ei hun wedi ei ddosbarthu i amrywiaeth eang o gyfranogion gan gynnwys ELWa, y Gwasanaeth Cyflogaeth, cyflogwyr, awdurdodau unedol, sefydliadau addysg a'r sector gwirfoddol.

2.2 Pwysleisiodd y Gweinidog fod llunio Cynllun Corfforaethol ar gyfer Gyrfa Cymru yn golygu dull gweithredu anghyfarwydd: byddai saith cwmni gyrfaoedd unigol yn cytuno ar un strategaeth. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o'r gwasanaeth cyngor a chyfarwyddyd i bob oed yng Nghymru, a ddatblygwyd ochr yn ochr â chyfranogion lleol ac ar lefel genedlaethol. Bu adborth cadarnhaol o bob man yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cyhoeddi cyllid o £31 miliwn ar gyfer Gyrfa Cymru yn Rhagfyr y llynedd.

2.3 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau a chodwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- ***Cynnydd yn y galw am wasanaethau*** – Dywedodd Dr John Llewellyn fod lansio Gyrfa Cymru Ar Lein wedi arwain ac y byddai'n dal i arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau gyrfaoedd. Ychwanegodd Mark Freeman mai gweledigaeth Gyrfa Cymru oedd bod ar ganol ffyniant economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, gan helpu i gyflenwi gweithlu tra medrus. Yr oedd gwaith wedi mynd rhagddo gyda phobl sydd eisoes mewn gwaith, a gâi gymorth ac anogaeth i sicrhau datblygu pellach.
- ***Targedau gwirioneddol*** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y gellid gosod targedau gwirioneddol a'u cyrraedd. Dywedodd Dr Llewellyn fod targedau manwl wedi eu gosod mewn cynlluniau busnes a oedd yn cael eu paratoi ar hyn o bryd. Byddid yn addasu'r targedau hyn i'r dull o weithio a chaent eu goleuo gan y broses ymgynghorol. Cyflawnwyd rhai targedau eisoes, h.y. sefydlu fframwaith ar gyfer Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru.
- ***Stereoteipio yn ôl rhyw*** – yr oedd cryn ddiddordeb yn y modd y byddai Gyrfa Cymru yn helpu i wrthweithio hynny. Teimlai Dr Llewellyn mai problem amlweddog oedd hon a'i bod yn gofyn newid mewn diwylliant ar bob lefel mewn cymdeithas ac oddi mewn i'r prosesau addysg a chyflogaeth. Yr oedd gwaith gyda llawer o adnoddau yn y sector ysgolion cynradd yn ddull a allai arwain at ganlyniadau tymor hir. Yr oedd angen hefyd ystyried gwella'r hyn a gynigid drwy brofiad gwaith.
- ***Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)*** – teimlwyd y dylai TGCh fod yn amlycach yn y Cynllun Corfforaethol. Cytunodd Dr Llewellyn a nododd fod Gyrfa Cymru Ar Lein yn ddatblygiad arloesol. Ychwanegodd Mark Freeman fod Gyrfa Cymru Ar Lein yn fwy na dim ond ffordd arall o wneud yr un pethau: mae'n bosibl y byddai potensial mewn llwyfan hyblyg, addasadwy i Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i anfon negeseuon testun at bobl ifanc drwy eu ffonau symudol a denu eu sylw yn sicrach drwy hynny. Hefyd, gobeithiwyd y byddai pobl yn gallu cyrraedd y Rhyngrwyd drwy eu ffonau symudol neu setiau teledu digidol a byddai hyn hefyd yn peri bod cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd yn fwy hygyrch drwy gyfrwng modern.
- ***Adrannau gyrfaoedd ysgolion –*** gofynnwyd i'r cynrychiolwyr a oeddent yn teimlo bod adrannau gyrfaoedd ysgolion yn gysyniad hen ffasiwn a beth oedd ymateb yr adrannau i'r Cynllun Corfforaethol. Atebodd Mark Freeman fod Gyrfa Cymru yn cydnabod y rôl gadarnhaol a oedd gan adrannau gyrfaoedd ysgolion a dywedodd y byddent yn parhau i fod yn bartneriaid allweddol yr oedd eu gwaith yn ategu gwaith Gyrfa Cymru. Yn fwyfwy dros y blynyddoedd diwethaf hyn, bu ymdrech i gyrraedd disgyblion ym mhen isaf yr ysgolion. Yr oedd ymgais i feithrin gallu mewn adrannau gyrfaoedd ysgolion a helpu i hyfforddi athrawon i gynorthwyo wrth roi cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd. Yr oedd Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru wedi helpu i roi lle amlycach i waith mewn

ysgolion.

- ***Ennyn diddordeb y cyhoedd yn fwy cyffredinol*** – dywedodd Dr Llewellyn fod hanes cyfarwyddyd gyrfaoedd oedolion yng Nghymru wedi bod yn anghyson. Nid oedd ond wyth mis er pan ymgymerodd Gyrfa Cymru â'r gwaith hwn, ac oherwydd hynny ni ddatblygwyd llwyddiant yn y maes yn llawn eto. Ystyrid bod datblygu ystod ehangach o gysylltiadau â'r sector gwirfoddol, a oedd wedi ymwreiddio'r dda eisoes mewn llawer o ardaloedd, yn ffordd dda ymlaen er mwyn cysylltu mwy o oedolion â'r cysyniad o gyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.
- ***Cyngor gyrfaoedd a roddir mewn ysgolion*** – yr oedd peth pryder y gallai ysgolion roi cyfarwyddyd gyrfaoedd i ddisgyblion nad oedd yn rhydd oddi wrth fuddiant sefydliadol. Dywedodd Mark Freeman ei fod yn ffyddiog bod rôl yr ymgynghorydd gyrfaoedd mewn ysgolion yn gwbl amhleidiol o ran ei safbwynt ac yn seiliedig ar fudd gorau'r person ifanc, nid y sefydliad. Nododd y gellid cael rhywfaint o dyndra os rhoddai Gyrfa Cymru gyngor i ddisgyblion ynghylch darparwyr heblaw am ddosbarth chwech yr ysgol arbennig honno.
- ***Cysylltiadau addysg a busnes*** – teimlwyd bod angen dilyniant drwy'r system addysg wrth dynnu sylw disgyblion at y posibiliad o gychwyn eu busnesau eu hunain (yn y dyfodol). Eglurodd Jeff Cocks fod cyllid wedi ei sicrhau oddi wrth y Gronfa Elwa ar Wybodaeth ac amryw o ffynonellau eraill. Defnyddir y cyllid hwn ar gyfer rhaglenni hyfforddi fel y gallai ymgynghorwyr roi cyngor a chyfarwyddyd gwybodus ar hunangyflogaeth fel dewis gwirioneddol ar ôl gadael addysg ffurfiol ac agor meddyliau pobl i'r posibiliad o entrepreneuriaeth. Nododd Mark Freeman ei bod yn bwysig dod o hyd i'r dulliau a'r amserlenni cywir er mwyn dod ag addysg gyrfaoedd, ymyriadau cyfarwyddyd a phrofiadau o gysylltiadau busnes at ei gilydd mewn modd ystyrlon. Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu Gyrfa Cymru yn gweithio mewn rhai ardaloedd gyda rhai mor ifanc ag oedran ysgol gynradd ac yr oedd yn cydweithio'n agos â Menter Ifanc ac Awdurdod Datblygu Cymru (WDA). Teimlai'r Aelodau y byddai'n fuddiol cynnwys yr wybodaeth hon yn nodau strategol Gyrfa Cymru.
- ***Dyheadau isel/cymunedau dan anfantais ac ehangu cyfranogiad –*** yr oedd peth pryder y gellid peidio â chynnwys cydnabyddiaeth o gymunedau dan anfantais yn y nodau strategol, oherwydd dyheadau isel mewn cymunedau o'r fath. Yr oedd cryn ddiddordeb hefyd yn y modd y byddai gwaith Gyrfa Cymru yn cysylltu â nod y Pwyllgor o ehangu cyfranogiad mewn Addysg Bellach/Addysg Uwch o 50 y cant. Dywedodd Dr Llewellyn fod gwaith Gyrfa Cymru o ddydd i ddydd yn cynnwys hybu dyheadau pawb. Bu cysylltiad agos â rhwydwaith eang o bartneriaid, gan gynnwys gwaith ar brosiect Rhoi Cymunedau'n Gyntaf ac amryw o brosiectau gwaith allanol. Fodd bynnag, yr oedd cysylltiad un i un yn gofyn llawer o adnoddau ac ni allai cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd ond bod yn un rhan o'r ymateb i'r broses gymhleth iawn o hybu dyheadau ar lefel yr unigolyn a'r gymuned.
- ***Monitro gwaith*** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod sut y gellid monitro gwaith yn effeithiol. Dywedodd Dr Llewellyn fod dadl bosibl ynghylch mater canlyniadau ac effaith: byddid yn mesur canlyniadau fel effaith gwaith Gyrfa Cymru ar fywydau pobl. Yr oedd Gyrfa Cymru yn ddylanwadwr ac yn gefnogwr hefyd ac yr oedd hyn yn anodd ei fesur. Teimlwyd ei bod yn briodol symud oddi wrth ddadansoddi meintiol.
- ***Polisïau'r Cynulliad*** – gofynnwyd i'r cyfranwyr a oeddent yn teimlo bod unrhyw fylchau ym mholisïau'r Cynulliad mewn perthynas â gyrfaoedd. Teimlai Dr Llewellyn fod bylchau o bosibl mewn perthynas â'r sector cynradd a hefyd y gr•p isel eu medrau a'u cyflogau; byddai mwy o dystiolaeth i'w darparu ar hyn yn y dyfodol.
- ***Cysylltiadau Addysg Busnes*** – yr oedd cryn ddiddordeb yn y modd yr oedd gwaith Gyrfa Cymru yn cysylltu â gwaith y cysylltiadau Addysg Busnes a sut y gellid datblygu hynny. Dywedodd Mark Freeman fod Gyrfa Cymru yn gyfrifol am reoli profiad gwaith, mentora, cymorth athrawon a chymorth cwricwlwm. Yr oedd nifer o'r saith cwmni yn brofiadol yn y mesydydd hyn cyn sefydlu Gyrfa Cymru yn Ebrill 2001. Yr oedd yn her newydd i gwmnïau eraill; cymerai gryn amser i sefydlu gwasanaeth unffurf ledled Cymru. Teimlai Gyrfa Cymru hefyd y dylid gwreiddio cysyniadau addysg a busnes yn fwy pendant yn y fframweithiau Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac Addysg Berthnasol i Waith ac

y dylid gwneud y rhain yn fframwaith statudol.

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Y Gymraeg mewn Addysg – Tystiolaeth Lafar – Bwrdd yr Iaith Gymraeg**

***Papurau: ELL 01-02(p.4a) a (p.4b)***

3.1 Amlinellodd Rhodri Williams a Meirion Prys Jones safbwynt y Bwrdd ar adolygiad polisi'r Pwyllgor o'r Gymraeg mewn Addysg, fel y'i nodwyd yn y papurau a gyflwynwyd. Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i ofyn cwestiynau; codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- ***Hwyluso'r galw*** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pa lwybr strategol y dylid ei ddilyn i hwyluso'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, yn enwedig yn ne ddwyrain Cymru. Teimlwyd hefyd y gellid llwyddo i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ysgolion di-Gymraeg. Yr oedd Rhodri Williams yn cytuno i raddau a dywedodd fod y ffactor o fod yn gysurus ag iaith yn holl bwysig. Dywedodd Bethan Guilfoyle ei bod yn dysgu mewn ysgol uwchradd yn Rhondda, lle y cafwyd cefnogaeth gan y rhieni, yr awdurdod lleol a'r gymuned. Teimlwyd bod yr ysgol wedi datblygu dysgu'r Gymraeg ymhell y tu hwnt i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol. Yr oedd athro wedi ei gyflogi i helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg cyn i'r disgyblion fynd i ysgol uwchradd. Dywedodd Meirion Prys Jones mai ffactor mawr yn newis y rhieni oedd y pellter yr oedd plant yn gorfod ei deithio i'r ysgol. Awgrymodd y dylid seilio darpariaeth addysg Gymraeg yn fwy ar gymunedau. Mewn perthynas ag addysg y blynyddoedd cynnar, teimlwyd mai'r ateb fyddai cael mwy o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar ddwyieithog a fyddai o fudd i rieni ac i blant. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn debygol, yng ngolwg y golled o 40 y cant o ddisgyblion sydd yn gadael addysg gynnradd cyfrwng Cymraeg i fynd i addysg uwchradd nad oedd yn Gymraeg ei chyfrwng, y gwneir penderfyniadau gan rieni ar sail yr iaith a siaredid gartref.
- ***Rhagdybiaeth*** – Teimlwyd yn gryf fod rhagdybiaeth yn y papurau a gyflwynwyd gan y Bwrdd (ELL 01-02 (p.4a) a (p.4b)) y byddai pawb yng Nghymru yn dod yn ddwyieithog yn y pen draw. Teimlwyd y byddid yn achosi anghytundeb os defnyddid polisïau'r Cynulliad i helpu i ddyfeisio sefyllfa o'r math hwn, gan ei bod yn bosibl na fyddai rhai cymunedau yng Nghymru yn dymuno'r cyfle i ddod yn ddwyieithog. Hefyd, teimlwyd y gellid anfon neges negyddol i'r perwyl bod y Cymry hynny nad oeddent yn siarad y Gymraeg yn ddiffygiol rywsut o ran eu 'Cymreictod'. Cytunodd Rhodri Williams nad oedd y sefyllfa hon yn ddymunol nac yn ymarferol; byddai'n ddoethach dilyn dull graddol. Amlinellodd y trawsnewid a fu yn yr agwedd at y Gymraeg mewn rhai ardaloedd; yr oedd rhieni yn yr hen Forgannwg Ganol wedi dymuno cael mwy o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w plant. Ychwanegodd Rhodri Williams na fyddai dyfodol i'r Gymraeg oni bai fod y bobl hynny nad oeddent yn siarad y Gymraeg yn cefnogi'r polisïau a oedd yn hyrwyddo'r iaith.
- ***Gorfodaeth*** – yr oedd peth pryder o hyd fod y papurau a gyflwynwyd yn awgrymu gorfodaeth i ddod yn ddwyieithog. Eglurodd Rhodri Williams fod dewis yn hanfodol mewn perthynas ag addysgu cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mewn perthynas â dysgu'r Gymraeg fel pwnc, yr oedd elfen o orfodaeth. Yr oedd yr elfen hon o orfodaeth yn fwy tebygol yn yr ardaloedd mwy gwledig yng Nghymru. Aeth ymlaen i egluro bod y cynlluniau yr oedd y Bwrdd yn cytuno arnynt gyda'r Awdurdodau Addysg Lleol (AALlau) yn adlewyrchu'r wir sefyllfa; teimlai y gellid cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg yn sylweddol ond nid o 100 y cant. Yr oedd y Bwrdd yn ymwybodol o hyd o weithio oddi mewn i'r consensws yng Nghymru.
- ***Modelau eraill*** – yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod beth oedd y dewis gorau ar gyfer modelau ysgol: ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg neu ysgolion dwyieithog. Eglurodd Meirion

Prys Jones fod anghenion y gwahanol ardaloedd yn amrywiol. Yr oedd nifer o ysgolion yn gweithredu eisoes a oedd yn cynnig darpariaeth amrywiol. Gofynnodd yr Aelodau hefyd a oedd unrhyw dystiolaeth o ran effeithiolrwydd y gwahanol fathau o fodelau ysgol wrth ddenu a chynhyrchu siaradwyr Cymraeg. Dywedodd Meirion Prys Jones fod diffyg tystiolaeth oherwydd diffyg diffiniad o bob model. Teimlwyd bod mawr angen gwneud ymchwil yn y maes hwn.

- ***Asesu'r galw*** – teimlai'r Pwyllgor y dylid asesu'r galw yn briodol. Gofynnwyd i'r Bwrdd ba lefel o gymorth addysgu mewn ysgol cyfrwng Saesneg a oedd yn ofynnol i gadw dwyieithrwydd. Dywedodd Bethan Guilfoyle fod angen ehangu'r adnoddau dynol fel y gellid addysgu pob disgybl yn ddwyieithog o bump oed i 16 oed. Dywedodd Meirion Prys Jones fod plant a oedd wedi derbyn addysg ymdrwytho rhwng tair a phump oed wedi dysgu ieithoedd yn gyflym iawn. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o blant o blith y 40 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn mynd ymlaen i addysg cyfrwng Cymrae yn dod o gartrefi/cefndiroedd dwyieithog. Byddai ymchwil yn werthfawr er mwyn canfod y rhesymau dros ddewisiadau rhieni.
- ***Strategaeth*** – teimlwyd bod angen strategaeth realistig. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod pa gyfrannau o'r gronfa a oedd yn debygol o fod ar gael o siaradwyr Cymraeg a allai ymgymhwyso y byddai eu hangen er mwyn gwasanaethu darpariaeth ddwyieithog mewn ysgolion neu mewn cyd-destunau eraill dros amser. Yr oedd yn holl bwysig peidio â gwneud rhagdybiaethau ynghylch demograffeg y cyflenwad a oedd yn gwbl afrealistig ac yn peri nad oedd modd cyflawni targedau ar gyfer datblygu. Nid yn unig y byddai pwysau ar gyfran uwch o'r boblogaeth Gymraeg i wasanaethu datblygu mewn ysgolion nag a fyddai ar gyfartaledd ar rai cyfrwng Saesneg, ond byddai'r pwysau hynny'n ymestyn hefyd i broffesiynau ac ymarferwyr ategol mewn gofal plant, therapïau a seicoleg addysgol, er enghraifft. Byddai'n bwysig gwneud rhywfaint o fodelu ar hynny i sicrhau na fyddai cyfanswm y pwysau dros ddatblygu yn dod yn gwbl afrealistig ac yn hybu disgwyliadau na ellid eu cyflawni. Gofynnodd yr Aelodau i'r Bwrdd wneud sylw ynghylch a fyddai creu mwy o leoliadau lle y defnyddir y ddwy iaith o gymorth i ddod â'r ieithoedd at ei gilydd a chreu argoelion da ar gyfer addysg ddwyieithog. Dywedodd Rhodri Williams y dylai'r targedau fod yn uchelgeisiol, ond yn realistig. Yr oedd angen gwneud addysgu yn fwy atyniadol i'r bobl hynny a oedd yn dymuno helpu'r Gymraeg i oroesi a ffynnu. Nododd y Cadeirydd fod cysylltiad uniongyrchol rhwng y cyflenwad o athrawon a'r galw am ddarpariaeth.
- ***Targedau Cenedlaethol/Gofodol*** – bu peth trafodaeth ynghylch a ddylai'r targedau a bennir fod yn ofodol neu'n genedlaethol. Credai Meirion Prys Jones fod angen targedau cenedlaethol er mwyn goleuo strategaeth a oedd yn amlinellu nifer digonol o bobl i helpu i gyrraedd y targedau hyn.
- ***Gogwydd*** – teimlwyd yn gryf fod gogwydd canfyddedig yng nghyd-destun y papurau a bod yr iaith a ddefnyddient yn peri bod statws y Gymraeg yn ymddangos yn fwy bregus nag ydoedd mewn gwirionedd. Awgrymwyd y gallai'r ffigurau a gyflwynwyd yn y papurau ddangos bod y Gymraeg ar gynnydd.
- ***Cymraeg i oedolion*** – teimlai'r Pwyllgor fod Cymraeg i oedolion yn faes a oedd yn tyfu fwyfwy ac y byddai o gymorth derbyn rhywfaint o dystiolaeth ystadegol i oleuo'r broses adolygu.

**Eitem Pedwar: Blaenraglen Waith Strategol Ddrafft**

***Papur: ELL 01-02(p.5)***

4.1 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y caent wneud sylwadau ar flaenraglen waith strategol ddrafft y

Pwyllgor, a oedd yn cynnwys y cyfnod Mai 2002 i Fai 2003. Yr oedd unrhyw awgrymiadau gan yr Aelodau i'w hanfon drwy'r Clerc. Wedi hynny, byddid yn cylchredeg rhaglenni gwaith yr holl bwyllgorau pwnc i'r pwyllgorau eraill yn eu tro er mwyn croesgyfeirio a rhoi sylwadau.

**Eitem Pump: Cofnodion cyfarfod 12 Rhagfyr 2001**

***Papur: ELL 19-01(mins)***

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Yr oedd dau bapur i'w nodi:**

**Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth – gwybodaeth ar gynnydd**

***Papur: ELL 01-02(p.6)***

**Adroddiad Tasglu'r Strategaeth Gofal Plant Genedlaethol**

***Papur: ELL 01-02(p.7)***

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth ar ddydd Mercher 30 Ionawr 2002.**